| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Hydref 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo fersiwn drafft Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad I a II.

2.2 Mae Atodiad I yn cynnwys naratif am gynnydd o ran darparu ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a chynnydd y rhaglen. Mae astudiaethau achos, datblygu cynaliadwy a gwybodaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb wedi'u cynnwys ym mhob is-adran blaenoriaeth gorfforaethol hefyd.

2.3 Mae Atodiad II yn cynnwys gwybodaeth o System Reoli Perfformiad Verto ynghyd â graffiau sy'n dangos data perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newid y cytunir arno, bod yr Aelodau'n cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2017/18 er mwyn ei gyhoeddi cyn 31 Hydref 2018.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i geisio cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

4.2 Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2017-18, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor o ran y blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes cost yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn. Wedi cytuno ar yr argymhelliad hwn, bydd y ddogfen ar gael ar-lein a bydd datganiad i’r wasg yn cael ei ryddhau yn rhoi gwybod i bobl bod y ddogfen wedi’i chyhoeddi, a'i lleoliad.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid yw’r penderfyniad i gymeradwyo’r adroddiad yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i’r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae’r adroddiad wedi’i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae’r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sy’n cael ei chynnwys o fewn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Ymgynghorir yn sesiwn Briffio’r Cabinet â’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth cyn cyflwyno’r adroddiad i’r Cyngor Sir i’w gymeradwyo.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai methu cyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da’r Cyngor.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae’r Cynllun Corfforaethol a’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy’n cael ei chefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.